# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y Cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Camddefnyddio Sylweddau a Dibyniaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 07.06.2022 |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead, Caerdydd |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Peredur Owen Griffiths AS | Aelod o'r Senedd Plaid Cymru dros Ddwyrain De Cymru |
| Dr Altaf Hussain AS | Aelod o'r Senedd dros y Ceidwadwyr Cymreig, Gorllewin De Cymru |
| Martin Blakebrough | Prif Swyddog Gweithredol, Kaleidoscope |
| Gareth Llewellyn | Staff Cymorth Aelod |
| Cris Watkins | Swyddog Ymgyrchoedd a Chyfathrebu, Kaleidoscope |
| Rhestr Ddosbarthu'r Grŵp Trawsbleidiol ledled y Sector | |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

**Sylwadau agoriadol a chyflwyniadau**

Croesawodd Peredur Owen Griffiths AS bawb i ail gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gamddefnyddio Sylweddau a Dibyniaeth i edrych yn fanwl ar y cwestiwn 'A all Cymru Blismona'i ffordd allan o'r argyfwng cyffuriau?'

Diolchodd Peredur i'r siaradwyr am ddod i rannu eu profiadau personol, sy'n allweddol ar gyfer llunio polisi yn y maes hwn. Pwysleisiodd bwysigrwydd clywed am arfer gorau yng Nghymru, ledled y DU a thu hwnt, a dywedodd:

'Mae angen sgwrs ddi-flewyn ar dafod am un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu ein cymdeithas.'

Pwysleisiodd Peredur ran allweddol arall o'r Grŵp Trawsbleidiol hwn o ran edrych yn fanwl ar arfer gorau a chlywed am brofiadau yng Nghymru, yn y DU a thu hwnt. Mae cael gwesteion heddiw sydd â gwybodaeth uniongyrchol am ddull gweithredu Portiwgal o

ddiddordeb arbennig, o gofio bod ganddynt yn y wlad honno brofiad o gael canolfan gofal integredig fel rhan o'u rhaglen.

Gorffennodd Peredur ei bwt croeso drwy ddiolch i Martin Blakebrough am rôl Kaleidoscope yn darparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r Grŵp, ac anogodd y cyfranogwyr i ymweld â'r ambiwlans Canolfan Atal Gorddos arbenigol sydd wedi'i pharcio y tu allan i'r Pierhead, er mwyn gweld y gwasanaeth hwnnw.

Anerchodd Martin Blakebrough, Prif Swyddog Gweithredol Kaleidoscope, y cyfarfod ac anogodd yr holl gyfranogwyr i sicrhau eu bod yn manteisio ar y cyfle hwn i gynnal sgwrs agored. Anogodd Martin y cyfranogwyr i wylio cyfweliad Cullen Mais â Mark Drakeford y Prif Weinidog ar YouTube ynghylch ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau a'r daith y mae Cullen yn mynd â Mark arni. Mae'n dangos sut y gallwn symud y ddadl hon yn ei blaen ar lefel wleidyddol. Mae hefyd yn bwysig symud y ddadl yn ei blaen gyda'r cyhoedd, ac mae wedi bod yn galonogol cael yr ambiwlans Atal Gorddos yn cael ei arddangos i'r cyhoedd er mwyn ysgogi trafodaeth wybodus. 'Hefyd mae'n bwysig ein bod yn ymgysylltu â'r person cyffredin ar y stryd, sy'n pleidleisio'.

**Yn y digwyddiad hwn, gofynnwyd a all Cymru blismona ei hun allan o'r argyfwng cyffuriau, a sut y gall arferion cyfiawnder troseddol dyfeisgar a mesurau lleihau niwed blaengar drawsnewid y maes triniaeth.**

## Crynodeb o siaradwyr:

**Cullan Mais**

Gwesteiwr podlediad The Central Club: Llais trwy Adfyd

Rhoddodd Cullan gyflwyniad inni ar ei hanes. Mae'n gyn-ddefnyddiwr Heroin a Chrac am 10 mlynedd a fu'n 'byw bywyd di-hid'. Pan ddaeth Cullan yn rhydd o afael ei ddibyniaeth yn 2020 gyda chefnogaeth Recovery Cymru a Kaleidoscope, ei nod oedd cael gwared ar stigma i'r rhai â dibyniaeth, a dangos, waeth pa mor ddrwg yw'ch problemau, fod golau ym mhen draw'r twnnel.

'Roedd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnes i gwrdd â nhw yn y bywyd hwnnw yr un peth â phawb arall, ac roedd ganddyn nhw yr un digwyddiad bach hwnnw yn eu bywydau a'u harweiniodd nhw i fyd cyffuriau.'

Er bod llawer o bobl y cyfarfu Cullan â nhw wedi profi trawma, nid oedd ef wedi wynebu hynny, ond nawr mae'n sylweddoli bod ganddo rai problemau iechyd meddwl nad oedd wedi'u datrys. 'Y wers gyntaf yw, peidiwch â chymryd cyffuriau i guddio problemau.'

Roedd Cullan a'i gyfoedion yn bobl lwyddiannus a oedd yn ysmygu crac ac weithiau'n defnyddio Heroin hefyd, i 'ddod yn ôl i lawr' fel petai. Pan ddaeth arian yn broblem roedd Cullan yn osgoi'r llwybr troseddu a bu'n cardota ar y stryd yn hytrach na

throseddu. 'Rwy'n meddwl bod hyn yn wir am oddeutu 90 y cant o ddefnyddwyr cyffuriau sydd wedi bod yn y carchar. Doedden nhw erioed wedi bwriadu bod yn lladron neu'n werthwyr cyffuriau, ond roedd y troseddu wedi digwydd o ganlyniad i'w dibyniaeth ar gyffuriau. Pan arweiniodd dibyniaeth Cullan at droseddu a charchar roedd wedi dychryn yn llwyr. 'Wnes i erioed weld fy hun yn droseddwr. Roeddwn i'n teimlo, y tro cyntaf hwnnw, nad oedd gen i gyfle teg i geisio cael adferiad ac i adsefydlu, a gwelais fod llawer o bobl eraill yn yr un sefyllfa.'

O'i brofiad ef, cyn gynted ag y bydd gennych gofnod troseddol, mae wedi darfod arnoch i gael cymorth bron. Ni allwch gael swydd felly nid oes opsiwn arall bron, ond troseddu. 'Mae rhywbeth arall y mae'n rhaid i ni allu ei wneud i helpu pobl yn y sefyllfa honno - nid yw dedfryd ohiriedig yn ddigon. Nid yw DRR a gwasanaeth cymunedol yn ddigon.'

Rooedd cyfarfod â rhywun o Kaleidoscope a oedd wedi bod drwy'r profiad hwnnw a dod 'allan yr ochr arall' fel petai, ynghyd â thriniaeth Buvidal, wedi darparu'r ddolen goll i Cullan.

Gorffennodd ei gyflwyniad drwy ddweud 'Allwn ni ddim anobeithio am bobl'.

Ychwanegodd Martin Blakebrough fod angen i ddarparwyr triniaeth fuddsoddi rhagor o arian mewn pobl sydd wedi cael profiad byw. Mae pobl fel Rondine Molinaro, sy'n rheolwr gwasanaeth triniaeth yn Kaleidoscope ac sydd â'r profiad byw angenrheidiol hwnnw yn hollbwysig. Gall y ddau siaradwr nesaf ein helpu i edrych yn fanwl ar y cwestiwn a allai dewis arall fod wedi bod ar gael yn lle carchar i bobl fel Cullan?

**Lincs defnyddiol:**

- Sianel YouTube y Central Club: **https://www.youtube.com/channel/UCVjOe4UwNRZx89uBXojoPcw/featured** https://www.youtube.com/channel/UCVjOe4UwNRZx89uBXojoPcw/about
- cyfrif Twitter: **https://twitter.com/thecentralclub_?ref_src=twsrc%5Egoogle%7Ctwcamp%5Eserp%7Ctwgr%5Eauthor**
- Tudalen Facebook: **https://www.facebook.com/thecentralclubpodcast/**
- Cyfrif Instagram: **https://www.instagram.com/thecentralclubpodcast/**

**Jason Kew**

Cyn Brif Arolygydd gydag Uned Lleihau Trais Heddlu Thames Valley ac arweinydd o ran Cyffuriau a Lleihau Niwed a phennaeth arfer arloesol yn y Ganolfan Arloesi Cyfiawnder.

Esboniodd Jason sut y dysgodd ei yrfa gyntaf ef yn y fyddin iddo sut i ddefnyddio rheolau yn gaeth. O ganlyniad, pan ddaeth yn swyddog heddlu ym 1996 yn Kingston upon Thames (lle roedd Kaleidoscope wedi'i leoli) daeth yn 'Robocop'. Daeth yn dda

iawn am arestio pobl am droseddau cyffuriau, yn enwedig o gylch ardal y prosiect Kaleidoscope lle daeth yn adnabyddus.

Pan wnaeth Martin ‘ei wahodd i mewn am baned o de' bu ambell ymweliad pellach cyn iddo oresgyn ei ragdybiaethau bod y lle, a'r bobl sy'n ei ddefnyddio, rywsut yn fudr ac aflan. Yn y diwedd newidiwyd safbwynt Jason drwy gyfuniad o’i brofiadau uniongyrchol yn byw ar y stryd tra’n gweithio ynghudd, a sefydlu cysylltiad personol â dyn ifanc o deulu cefnog a gweld ei lwybr at gaethiwed a gorddos yn y pen draw.

Daeth i adnabod y bobl y tu hwnt i’r nodwydd a'r trawma, a dechreuodd ddysgu nad oedd neb erioed wedi bwriadu bod yn ddibynnol ar gyffuriau. Yn wir, mae’r mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr sylweddau wedi profi llawer o drawma.

Daeth Jason yn warchodwr 'y 'Scope' a bu’n gwirfoddoli i fod yn Bwynt Cyswllt yr heddlu ar ei gyfer. Fe wnaeth y cyswllt hwn ei helpu i sylweddoli bod pobl o bob rhan o'r gymdeithas wedi defnyddio cyffuriau ers 1,000 o flynyddoedd, a sylweddolodd beth yw dibyniaeth, trawma ac anhawster. Roedd gweithio ochr yn ochr â Kaleidoscope hefyd yn dangos i Jason bod pobl yn gallu newid, os ydynt yn barod i wneud hynny.

'Mae hynny’n allweddol. Roeddwn i'n arfer â dal pobl a'u trosglwyddo i'r gwasanaeth cyffuriau a meddwl fy mod wedi datrys y broblem.  Pan ddes i i adnabod y gymuned sy’n defnyddio sylweddau, a sylweddoli pa mor hyfryd ydyn nhw, ac eto eu gweld yn cymryd gorddosau neu’n cael eu llofruddio neu eu herwgipio [roeddwn i] eisiau dod o hyd i lwybr arall ac ateb gwahanol’.

Rhoddodd Jason lawer o ystadegau i’r Grŵp:

- Mae 100,000 yn cael eu harestio am feddu ar gyffuriau.
- Rydych chi 12 x yn fwy tebygol o gael eich collfarnu am fod â chanabis yn eich meddiant os ydych yn ddu nag os ydych yn wyn.
- Esboniodd Jason fod yr heddlu yn draddodiadol wedi cael eu gyrru i wneud cynifer o arestiadau ag sy’n bosibl, ac i hyrwyddo euogfarnau oherwydd bod hynny’n cael ei weld fel rhywbeth a fyddai’n atal pobl rhag defnyddio cyffuriau.
- Mae 25 y cant o bobl yn defnyddio eu cyffur cyntaf erioed yn y carchar, sef yr union le y cânt eu hanfon i atal defnyddio cyffuriau mewn cymdeithas, sy’n ffwlbri.

Nid yw arestio a charchar yn gweithio.

'Addysg, addysg, addysg ac ymwybyddiaeth, ymwybyddiaeth, ymwybyddiaeth yw gwraidd yr ateb i broblem cyffuriau.  Mae angen inni sicrhau y darperir yr ymyriad gorau cyn i ddibyniaeth ddechrau’. Ond ar hyn o bryd does dim addysg bron.

- Defnyddiodd 3.5 miliwn o oedolion gyffur rheoledig yn 2021 (fesul arolygon).
- Roedd 1.3 miliwn o bobl ifanc 16-24 oed yn defnyddio cyffur rheoledig.
- Roedd 10 y cant ohonynt yn defnyddio cyffuriau dosbarth A.
- Mae 10 y cant o bobl mor ifanc â 11-15 mlwydd oed yn defnyddio cyffuriau dosbarth A.
- Ble mae'r addysg?

O safbwynt plismona, mae Dargyfeirio yn llwybr llawer gwell. 'Pan fydd yr heddlu'n dod o hyd i rywun â chyffuriau yn ei feddiant, beth a fyddai orau gennych? Bod Arbenigwr

Gwasanaeth Cyffuriau, neu swyddog heddlu, yn ymdrin ag ef?' Gall Arbenigwr y Gwasanaeth Cyffuriau ddelio â hynny yn lle'r heddlu ac mae sawl Heddlu bellach yn gweithredu rhyw fath o gynllun dargyfeirio. Mae dargyfeirio yn golygu y gallwn gael sgwrs gyda pherson sydd â chyffuriau yn ei feddiant heb sancsiwn troseddol – sef, sgwrs ddwyffordd onest, a gwahodd y person hwnnw i ddysgu rhagor am y cyffur y daethpwyd o hyd iddo ganddo. Mae angen addysg ar rai pobl ifanc yn eu harddegau. Efallai y bydd rhai pobl ddigartref angen naloxone a chael eu cyfeirio at wasanaeth. 'A oes angen cofnod troseddol ar berson sy'n cael ei ganfod â chyffuriau? Nac oes – oherwydd nid yw'r ataliad bwriedig wedi gweithio'

Mae rhai papurau newydd yn creu cynnwrf ynghylch Dargyfeirio, fodd bynnag, 'nid oes dim byd 'meddal' am atal marwolaeth.'

Ar gyfer pobl ifanc, rydym wedi gweld nad yw 6 wythnos o waharddiad o'r ysgol yn gweithio pan fyddant yn cael eu dal â chyffuriau yn eu meddiant. Yn lle hynny, gallai'r gwasanaeth cyffuriau ddod i'r ysgol, heb ddim cost i'r ysgol, gan fod gwasanaethau cyffuriau a ddarperir yn statudol eisoes, yn Lloegr o leiaf, o fewn cyllidebau gofal cymdeithasol plant.

Dywedodd Jason fod y dull hwn yn syml i'w roi ar waith a gall ei elusen (gweler y manylion isod) helpu i sefydlu hynny am ddim.

'Mae angen dull tebyg arnom ar gyfer oedolion. Mae yna sgwrs y mae'n rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ei chael ochr yn ochr ag iechyd y cyhoedd i'w hariannu.' Mae angen rhyw fath o becyn addysg ac ymwybyddiaeth (efallai ar-lein) ar gyfer y rhai nad oes angen iddynt fynd i'r gwasanaeth cyffuriau. Nid ydym am orlethu gwasanaethau cyffuriau.

Mae dargyfeirio yn gweithio ochr yn ochr â Chanolfannau Atal Gorddos ac Ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau (DCR).

Gorffennodd Jason ei gyflwyniad drwy sôn am ei brofiad o ymweliad â Denmarc lle ceir yr Ystafell Defnyddio Cyffuriau fwyaf yn Ewrop. Daeth dyn digartref i mewn am y tro cyntaf yn ei fywyd. Profwyd ei heroin am halogion. Gwiriodd y nyrs ei iechyd a'i amgylchiadau, ac o fewn 20 munud roedd wedi'i frysbennu ar gyfer triniaeth ddeintyddol, wedi'i sgrinio am Feirysau a Gludir yn y Gwaed, wedi cael cyngor ar ofal clwyfau, wedi cael gwely am y noson, ac yn bennaf oll, dangoswyd gofal a chariad tuag ato. Gofynnwyd iddo ddod yn ôl, a chytunodd. Dyna oedd ei brofiad cyntaf erioed o gael siawns o gael gofal, ac aeth ar unwaith ar hyd llwybr adferiad, yn hytrach na dilyn llwybr trosedd.

Ychwanegodd Martin Blakebrough, ar y ffrynt plismona, fod gwaith yn Durham wedi cael effaith fawr ar Gymru, a bod heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud llawer o waith yn y maes hwn y bydd Dafydd yn siarad yn ei gylch yn ddiweddarach.

**Lincs defnyddiol:**

- Jason Kew ar Twitter: https://twitter.com/jqjasonkew?s=20&t=y_2D1CBPNumvll9bdVn2TQ Jason Kew ar Twitter: https://twitter.com/jqjasonkew?s=20&t=y_2D1CBPNumvll9bdVn2TQ
- Gwefan y Ganolfan Cyfiawnder Arloesedd: https://justiceinnovation.org/
- Canolfan Cyfiawnder Arloesedd ar Twitter: https://twitter.com/cjinnovation

**Dafydd Llywelyn**
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Diolchodd Dafydd i Cullen am rannu ei brofiad byw, ac i Peredur am alluogi'r drafodaeth hon i ddigwydd. 'Rwy'n hoffi'r gyfatebiaeth o fod yn Robocop. Rwyf am sicrhau nad oes gennym recriwtiaid ifanc yn cael eu troi'n Robocops sy'n canolbwyntio ar esgyrn noeth y gyfraith a chyfreithlondeb.'

Dywedodd Dafydd fod y fframwaith presennol yn hen ffasiwn a bod angen ei adnewyddu a'i adolygu. Mae strategaeth gyffuriau'r DU yn rhoi cyfle i gymryd camau arloesol ym maes cyffuriau, ond nid yw San Steffan yn achub ar y cyfle hwn.

Mae'r Heddlu'n derbyn, bod angen i bethau newid o safbwynt diwylliannol, ond mae newid deddfwriaethol hefyd yn allweddol yn hyn o beth.

Mae gan Gymru ddau gynllun dargyfeirio – sef Heddlu Dyfed-Powys a Gogledd Cymru. Mae Ron Hogg, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn Durham yn gyn-blismon, ac mae wedi llwyddo i gyflwyno Dargyfeirio yno. Gan ddefnyddio trylwyredd dysgu ac thrylwyredd academaidd Durham bu'n bosibl gwerthu'r syniad i heddluoedd eraill yn Lloegr ac yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwrando ar y safbwynt Plismona. Ochr yn ochr â newid diwylliannol, yr hyn sy'n allweddol yw bod strwythurau'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn rhoi'r 'warchodaeth uchaf' mewn perthynas â'r mater hwn. Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ochr yn ochr â Phrif Gwnstabliaid yn ceisio perswadio Llywodraeth Cymru i fod yn fwy radical o fewn strwythur y Byrddau Cynllunio Ardal.

Mae cefnogaeth eang i ddarparu dull cwbl wahanol o ran Cymru, gyda Dargyfeirio yn ganolog iddo. 'Mae angen i ni symud oddi wrth sefyllfa wrthnysig o roi nodwyddau glân i ddefnyddwyr sylweddau ond wedyn eu hanfon i ffwrdd i yfed y cyffur' yn aml ar y strydoedd. 'Mae ambiwlans y Ganolfan Atal Gorddos sydd yma heddiw yn enghraifft o'r hyn y gellir ei wneud.'

'Fy nodau personol yw cael pob un o'r 4 heddlu yn gweithio yn yr un ffordd yng Nghymru, gyda'r nod o sicrhau newid ac aliniad cyn gynted â phosibl dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Mae angen rhagor o ymyriadau arnom i leihau'r niferoedd sy'n mynd i'r carchar, a lleihau'r cylch troseddol, gyda'r nod yn y pen draw o lai o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau. Dylai fod yn staen ar ein hanes fel cenedl o ran nifer y marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau a welir yng Nghymru bob blwyddyn.'

**Lincs defnyddiol:**

- Dafydd Llywelyn ar Twitter: https://twitter.com/DyfedPowys2016?s=20&t=nYXIfbqNmdF3JETbCej8kA

## Crynodeb o Gwestiynau, Sylwadau ac Awgrymiadau a nodwyd:

Diolchodd Peredur i'r siaradwyr. 'Mae'n wych gweld cynifer o bobl yma sy'n ymddiddori yn y pwnc, a nawr gallwn feddwl sut y gallem ddatblygu'r Grŵp hwn er mwyn iddo allu cymryd ychydig yn rhagor o amser i edrych yn fanwl ar y materion hyn'.

Mae'n amlwg bod Dargyfeirio ac ymyrryd yn allweddol. Sut ydym ni'n sicrhau bod y foment hudol honno'n digwydd, fel bod y defnyddiwr ar y funud honno, ar y pwynt hwnnw, yn gwybod bod y gefnogaeth ar gael? Sut ydym ni'n gweithio gyda'n gilydd i roi'r strwythurau ar waith, fel y gall yr ymyriad hwnnw gael ei roi ar waith pan fydd ei angen?

Gofynnwyd i Cullan 'beth ddaeth at ei gilydd i ti ar y foment honno?  A ellid ail-adrodd hyn?'

Atebodd Cullan: 'Ro'n i'n gwybod y byddwn i'n marw pe na bawn i'n gwneud newid, ond yna rhoddodd Covid-19 y cyfle i bob gwasanaeth gysylltu â mi, ac ymddiddori yn fy achos i.' Roedd cael cynnig gwaith a hyfforddiant a gobaith bryd hynny yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Ychwanegodd Dafydd mai'r broblem yw, bod yr arestiad cyntaf yn cael pobl ar y system, yna pan gaiff rywun ei arestio am yr ail dro mae rhagor o sancsiynau, ac mae pethau'n mynd yn anoddach ac yn waeth wedyn. Mae angen inni ddad-ddwysáu hynny, a rhoi cyfleoedd dargyfeirio dro ar ôl tro i dorri ar y dwysáu hwnnw.  Mae gan yr heddlu gyfle nawr gyda phlant ysgol, i'w trin fel plant yn gyntaf, ac fel troseddwyr yn ail, yn enwedig o ran troseddu lefel is. Dylem efelychu hynny ym maes oedolion, eto ar gyfer troseddu lefel is. Byddai datganoli plismona yn galluogi Cymru i gymryd y cam hwnnw.

Cafwyd cwestiwn o blith aelodau'r Cyfarfod – 'Faint o bŵer sydd gan Lywodraeth Cymru dros blismona?'

A. Dim pŵer uniongyrchol, ond mae pŵer meddal o ran partneriaeth â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi'u sefydlu dros y 6-8 mlynedd diwethaf.

Gofynnwyd i Martin Powell o Transform Drugs rannu profiad Portiwgal

Dechreuodd Martin drwy ddweud bod gan Lywodraeth Cymru arian sy'n allweddol i sefydlu arferion Dargyfeirio.  Er bod Dargyfeirio yn arbed arian yn aruthrol yn y tymor hwy, mae rhai costau o ran ei sefydlu.  Gan fod Dargyfeirio yn fater gweithredol mae gan yr Heddlu gyfle. Mae gan Gymru gyfle i gymryd yr awenau yma.  Yn iaith Llywodraeth y DU, yn Lloegr, maent wedi disodli'r gair Dargyfeirio â'r geiriau 'canlyniadau caled' ac nid yw hyn o gymorth i neb. 'Rwy'n credu bod lle gwirioneddol i Gymru greu ei hunaniaeth ei hun ar gyfer Dargyfeirio yng Nghymru, â'i dull gweithredu unigryw ei hun.'

O ran model Portiwgal, os cewch eich dal â chyffuriau fe'ch anfonir i 'bwyllgor gwrthanogaeth' sy'n cynnwys gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr gofal iechyd. 95 y cant o'r amser maen nhw'n diystyru'r mater, ond mae 5% o'r achosion yn cael eu hanfon ymlaen at wasanaethau cymorth (nid gorlethu gwasanaethau cymorth yw'r nod, fodd bynnag). Mae'r model hwnnw'n alluogwr hanfodol sy'n lleihau stigma, oherwydd nid yw'n troseddoli pobl, ac mae'n rhyddhau adnoddau.

Rhannodd Martin rai ffigurau

- Yn 2001 bu 76 o farwolaethau ym Mhortiwgal. Erbyn 2011 roedd 10 marwolaeth o ganlyniad i gyffuriau yn y wlad.
- Mae 38 y cant o garcharorion y DU yno ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.
- Ym Mhortiwgal roedd yn arfer â bod yn 40 y cant, ond erbyn 2019 roedd yn llai nag 16 y cant.
- Mae Portiwgal ymhell islaw cyfartaledd yr UE.
- Portiwgal sydd â'r ffigurau isaf ymhlith pobl ifanc.
- Bu gostyngiad yn y defnydd o gyffuriau ar gyfer pobl ifanc 15 i 24 mlwydd oed am 10 mlynedd.
- Gostyngodd heintiau cysylltiedig â nodwyddau o 1,297 i ddim ond 16 rhwng 2007 a 2019
- Gostyngodd Hepatitus C am 10 mlynedd.
- Yng Nghymru a Lloegr ers 1986 mae gennym 3 miliwn o gofnodion troseddol.
- Treuliwyd 680,000 o flynyddoedd yn y carchar.

Dywedodd Martin P. 'Am wastraff ar fywydau. Am wastraff arian ac adnoddau. Mae'n costio £48,000 y flwyddyn ar gyfartaledd i roi rhywun yn y carchar.

Os edrychwch ar argymhellion Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gorllewin Canolbarth Lloegr ar gyffuriau – cyfrannodd Llywodraethwr Carchar EM Featherstone a dweud 'os ydych am ddod â phroblem cyffuriau'r carchardai i ben, peidiwch ag anfon pobl â phroblemau cyffuriau i'r carchar'.

Nododd Ben Lloyd o G4S eu bod yn gweithio gyda GDAS a Kaleidoscope yng Ngwent i weithio ar Dargyfeirio. Yn 2019 datblygwyd gwasanaeth newydd gyda gweithwyr yn ystafelloedd Dalfa'r Heddlu.

Tynnodd Adam Holland sylw at lythyr agored gan 85 o sefydliadau a 150 o unigolion a oedd yn eiriol dros OPCs a DCRs yn 2021. Gwrthododd Llywodraeth y DU, ond yn Nhŷ'r Cyffredin ddoe cyflwynwyd llythyr newydd i newid rheoliadau camddefnyddio cyffuriau i ddarparu eithriadau, gyda'r nod o ganiatáu OPCs fel eithriad. Gwahoddwyd cyfranogwyr heddiw i lofnodi'r llythyr newydd hwn.

Amlygodd Martin Blakebrough, wrth i ambiwlans y Ganolfan Atal Gorddos siarad â'r cyhoedd heddiw, nad oedd pobl o bob oed yn gwrthwynebu OPCs. Awgrymodd Martin y dylid cyflwyno deiseb i Senedd Cymru, a mynd â'r ddeiseb allan ar y strydoedd er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd.

Rhannodd aelod o'r gynulleidfa eu profiad o ran Portiwgal. 'Rwyf wedi gweithio mewn gwasanaethau ers 20 mlynedd. Pan es i Bortiwgal roeddwn i'n meddwl fy mod wedi gweld y cyfan. Yr elfen sy’n amlwg iawn yw bod troseddoldeb yn lladd pobl. Nid yw'r hyn yr ydym ni’n ei wneud yn gweithio. Ond ym Mhortiwgal, gallwn gerdded at bobl a oedd yn chwistrellu neu yn ysmygu crac ond nid oedd yr un o'r defnyddwyr yn fy amau, er fy mod i’n edrych yn debyg i heddwas. Nid oedd yr un ohonynt yn chwarae'r gêm honno y mae rhai yn ei chwarae er mwyn cael presgripsiwn. Nid yw'r ateb yn fawr ac yn gymhleth - yr ateb yw tosturi a chariad. Os rhowch hynny i mi, byddaf yn gwrando arnoch, ac yn ymgysylltu â chi. Ond os rhowch ddedfryd droseddol i mi, byddaf yn codi amddiffynfeydd o fy nghwmpas.'

Tynnodd Thomas, o elusen ddigartref y Wallich, sylw at y ffaith bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar fframwaith a gaiff ei lywio gan drawma ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Mae cael yr heddlu, y llysoedd a’r gwasanaethau prawf i ymwneud â hynny yn allweddol. 'Cymerwch olwg ar hwnna.'

Ychwanegodd Martin Blakebrough 'mae addysgu pobl fel y gallant edrych mewn modd mwy tosturiol ar bobl sy'n cymryd cyffuriau yn allweddol.' Mae siaradwyr o blith cyfoedion yn allweddol, ond hefyd mae gan rai defnyddwyr hawl i fyw bywyd normal heb fod angen codi llais – mae angen i bobl fod yn gyfforddus i fod yn nhw eu hunain yn unig, a byw eu bywydau yn eu ffordd eu hunain.

Cwestiwn i Jason – Yn Hampshire mae model hunan-ariannu lle byddai'r rhai sy'n cael eu Dargyfeirio yn talu ffi am gymryd rhan. A yw hwnnw'n fodel tebygol y gellid ei gomisiynu i raddau helaethach yn y dyfodol?

Ymatebodd Jason gan ddweud: 'Dylai unrhyw ganlyniad o ran cyfiawnder troseddol fod yn rhad ac am ddim. Mae cynlluniau taliadau i droseddwyr yn creu anghydraddoldeb cymdeithasol.' Ychwanegodd Jason fod arweinyddiaeth yr Heddlu yn wledd symudol wrth i ideoleg newid drwy'r amser. Mater i ni ym maes elusennau yw cadw pethau i symud ymlaen. Cafwyd enghraifft o anghydraddoldeb, a hynny yng Ngŵyl Reading pan ofynnwyd i ni lenwi’r gofod gyda phresenoldeb heddlu gweladwy iawn. Yn Royal Ascot gerllaw – nid oedd dim plismona o gwbl…

Cwestiwn – Faint o hyfforddiant mae swyddogion yng Nghymru yn ei gael?

Ymatebodd Dafydd drwy ddweud 'Rwy'n meddwl y gallem wneud rhagor - mae wedi bod ar waith ers 3 blynedd. Mae problem capasiti o ran lle mae pobl yn cael eu dargyfeirio ac mae'n dal yn dasg i ni sicrhau bod swyddogion rheng flaen yn gwybod i ble y dylent ddargyfeirio pobl.' Ymhellach, mae bellach ap ar gael y gellir ei ddefnyddio ac sy'n golygu y gallwn osgoi y ddalfa, a mynd yn union at y cam dargyfeiriad.

Cwestiwn – sut mae modd dylanwadu ar wleidyddion i fod yn fwy dewr o ran gwleidyddiaeth plaid? Roeddwn yn siomedig iawn i weld y Blaid Lafur yn trechu'r Democratiaid Rhyddfrydol ar y polisi ar ganabis yn ystod yr etholiadau lleol diweddar.

Ateb – Yn ddiweddar gofynnodd Simon Hart Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a oes angen inni boeni cymaint am gynnwys y cyhoedd gyda ni ar yr agenda hon? Efallai bod angen i wleidyddion fod yn ddewr o ran gwneud newidiadau ar sail tystiolaeth?

Sylw – rydw i wedi darganfod bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru yn fodlon lleisio eu safbwyntiau. Rwy'n meddwl weithiau nad yw gwleidyddion yn ddigon dewr ac nad ydynt yn deall safbwyntiau'r cyhoedd. Mae grwpiau cymunedol Facebook lleol yng Nghasnewydd hyd yn oed yn gofyn 'pam nad oes gan [ddefnyddwyr sylweddau] rywle i fynd i ddefnyddio cyffuriau'.

Gofynnodd Cullan – Mae'n ymddangos bod Dargyfeirio yn ymwneud â sut rydych chi'n ymdrin â phobl sy'n 'cael eu canfod â chyffuriau' yn ymwneud â throseddu ar lefel isel – ai dyna'n union ydyw?

Ateb – o fewn Heddlu Dyfed Powys mae'r cyfan yn droseddu lefel is e.e. troseddau fel dwyn o siopau lle mae rhywun yn cael ei ganfod gyda chyffuriau. Gall dargyfeirio ddigwydd bryd hynny o ran tai, cyflogaeth, cyffuriau, alcohol, ac mae'n osgoi'r gwaethygu hwnnw y soniwyd amdano. Mae angen i wleidyddion fod yn feiddgar a pheidio â chlustnodi polisïau penodol yn hyn o beth - a chaniatáu i benderfyniadau fod yn fwy hylifol a deinamig mewn perthynas â'r unigolyn dan sylw. Mae dargyfeirio yn ffordd i'r heddlu ddargyfeirio'r unigolyn allan o'r system cyfiawnder troseddol ac at arbenigwyr.

Daeth cyfraniad Peredur i ben drwy ddweud, y byddwn yn ceisio cael Lynne Neagle i ddod i'r cyfarfod nesaf, i roi gwybodaeth inni ar yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni fel Dirprwy Weinidog Iechyd a Llesiant. 'Hoffwn pe baem ni'n ffrind beirniadol, i wrando a deall.'

Gorffennodd Peredur drwy annog y rhai sy'n bresennol i ddod o hyd i rywun nad ydynt wedi siarad â nhw o'r blaen, ac i wrando ar eu safbwynt.

Gorffennodd Martin drwy ddweud bod angen rhagor o leoedd arnom ar gyfer triniaeth. Mae'r heddlu'n gorfod defnyddio arian ar gyfer gofal iechyd pan ddylen nhw fod yn ei ddefnyddio ar gyfer dargyfeirio. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod triniaeth ar gael o fewn 24 awr o ran iechyd yr unigolyn.

Gorffennodd Martin drwy ddiolch i bawb am ddod i'r cyfarfod, ac yn arbennig i Peredur am ddarparu'r gofod hwn ar gyfer cynnal sgwrs.